**Atodiad 2**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Dogfen Ôl-Ymgynghori

# Cynnig i sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ffordd Hampden, Plas Madog, Wrecsam

## Cynnwys

**Cyflwyniad** ... 4
**Cyhoeddi'r Ymgynghoriad** ... 4
Rhestr yr Ymgyngoreion ... 4
Ymgyrch Cyfathrebu ... 6
**Sesiynau Ymgynghori** ... 6
Amserlen y Sesiynau Galw Heibio ... 7
**Adborth am yr Ymgynghoriad** ... 7
Ymatebwyr ... 8
Dadansoddiad Meintiol – Ymatebion i'r Arolwg Ar-lein ac Ymatebion E-bost gan Oedolion ... 9
Dadansoddiad Ansoddol – Ymatebion i'r Arolwg Ar-lein ac Ymatebion E-bost gan Oedolion ... 9
Dadansoddiad Meintiol – Ymatebion i'r Arolwg Ar-lein gan Blant a Phobl Ifanc ... 9
Dadansoddiad Ansoddol – Ymatebion i'r Arolwg Ar-lein gan Blant a Phobl Ifanc ... 9
**Senedd yr Ifanc** ... 9
Adborth gan Senedd yr Ifanc – 28 Ebrill 2025 ... 10
Sylwadau Ysgrifenedig gan Senedd yr Ifanc ... 10
**Adborth gan Grwpiau/E-byst** ... 10
**Adborth gan Estyn** ... 10
Cyflwyniad ... 12
Y Cynnig ... 12
Casgliad ... 12

Disgrifiad a Manteision ........ 12
Agweddau Addysgol y Cynnig ........ 13
**Trin Pawb yn Deg** ........ 14
Y Gymraeg ........ 15
Carbon ........ 17
**Data Monitro Cydraddoldeb – 'Amdanoch Chi'** ........ 18
Oedran ........ 18
Rhywedd ........ 19
Ailbennu Rhywedd ........ 20
Hunaniaeth Hiliol-Genedlaethol ........ 20
Anabledd ........ 21
Gofalwr ........ 21
Iaith ........ 21
Hil-Ethnigrwydd ........ 22
Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg cred) ........ 23
Priodas a Phartneriaeth Sifil ........ 23
Beichiogrwydd a Mamolaeth ........ 24
Cyfeiriadedd Rhywiol ........ 24
Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol – Budd-daliadau Prawf Modd ........ 25
Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol – Budd-daliadau Anabledd ........ 25
Ward Etholiadol ........ 25

**Cwestiynau Monitro Ansawdd yr Arolwg** .... 28
**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** .... 30
**Cwestiynau Cyffredin** .... 30
**Crynodeb Cyffredinol o'r Canfyddiadau** .... 31
**Casgliad** .... 32
**Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol** .... 32

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cwblhau cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn ddiweddar mewn perthynas â'r cynnig i sefydlu darpariaeth arbenigol newydd o'r enw ‘Copa’ ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar **24 Mawrth 2025** a daeth i ben ar **11 Mai 2025**.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddilyn Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ac yn rhoi arweiniad i gyrff perthnasol (Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu). Mae’r ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, yn cyfeirio at ganfyddiadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn ceisio ateb cwestiynau a ofynnwyd i'r Awdurdod Lleol.

## Cyhoeddi'r Ymgynghoriad

Dechreuodd yr ymgynghoriad gyda chyhoeddi’r Ddogfen Ymgynghori yn ddwyieithog ar 24 Mawrth 2025 ar wefan y Cyngor a llwyfan ymgynghori ar-lein y Cyngor, ‘Eich Llais’. Cafodd dolenni i'r dogfennau eu hanfon trwy e-bost i'r rhestr lawn o ymgyngoreion. Dan arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r manylion isod yn nodi rhestr y sawl a dderbyniodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori neu a gafodd eu cyfeirio ati yn ystod y cyfnod ymgynghori.

### Rhestr yr Ymgyngoreion

Gofynnwyd i amrywiaeth o unigolion am eu barn ar y cynnig gan gynnwys:

- Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Yr Eglwys yng Nghymru a'r Esgobaethau Catholig
- Awdurdodau Lleol eraill: Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Swydd Amwythig, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Rhosymedre
- Cyrff llywodraethu ysgolion Wrecsam
- Holl ysgolion cynradd ac uwchradd Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig.
- Rhieni/gofalwyr (a darpar rieni/gofalwyr) y ddarpariaeth newydd ac Ysgol Gynradd Rhosymedre
- Ysgol Gynradd Rhosymedre
- Cyngor Cymuned Cefn
- Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, gan gynnwys Menter Iaith y Fflint a Wrecsam, RhAG a Mudiad Meithrin

- Gweinidogion Cymru ac Aelodau Senedd Cymru: Lesley Griffiths AS, Ken Skates AS, Llŷr Gruffydd AS, Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Sam Rowlands AS
- Aelodau Seneddol Lleol: Andrew Ranger AS, Gill German AS, Becky Gittins AS
- Estyn a GwE
- Undebau llafur sy'n cynrychioli athrawon a staff
- Adran Trafnidiaeth Ysgol Cyngor Wrecsam
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf lleol
- Darparwyr meithrinfeydd annibynnol, grwpiau chwarae, gwarchodwyr plant a darparwyr Dechrau'n Deg lleol
- Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Little Sunflowers Childcare
- Y Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol (AVOW)
- SNAP Cymru
- Senedd yr Ifanc
- Gwasanaeth Seicoleg Addysg
- Iechyd, gan gynnwys y Gwasanaeth Lleferydd ac Iaith, Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, Gwasanaeth Ffisiotherapi, Gwasanaeth Datblygu Cyn-ysgol, Pediatreg
- Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd Gogledd-ddwyrain Cymru
- Hawl Bore Oes/Gwasanaeth Dechrau'n Deg
- Ysgolion y tu allan i'r sir

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr ac roedd yr ymgynghoriad ar agor i bawb oedd yn dymuno cymryd rhan.

Wrth gynnal yr ymgynghoriad, defnyddiwyd ystod o ddulliau i ymgysylltu â phobl. Casglwyd data meintiol ac ansoddol. Gwahoddwyd ymgyngoreion i ymateb i'r ymgynghoriad trwy gwblhau arolwg ar-lein, ffurflen ymgynghori copi caled neu drwy e-bostio neu ysgrifennu at yr Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar. Roedd modd cyflwyno ymatebion yn electronig neu ar ffurf papur copi caled.

Roedd y ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais. Roedd hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch fel print bras, Braille, DVD BSL a CD sain ar gais.

**Ymgyrch Cyfathrebu**
Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad yn eang trwy gydol y cyfnod ymgynghori gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a oedd yn cynnwys:

- Baner 'Eich Llais' ar wefan CBSW
- Darparu codau QR i gael mynediad i'r arolwg
- Gwybodaeth wedi'i chylchredeg trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol CBSW
- Gwybodaeth wedi'i chylchredeg trwy flog Newyddion Cyngor Wrecsam
- Gwybodaeth wedi’i chylchredeg trwy Fwletin Cynnwys CBSW
- Ymgyrch posteri yn yr ardal leol
- Dosbarthu Llyfrynnau Ymgynghori
- Bwletin Ysgolion

Roedd nifer o ffyrdd y gallai pobl ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus:

- Arolwg (ar-lein a phapur).
- Nifer o sesiynau galw heibio yn yr ysgol ac yn y gymuned.
- Sefydlwyd cyfrif e-bost pwrpasol er mwyn i bobl allu gofyn unrhyw gwestiynau / cyflwyno eu barn.
- Sesiynau rhithwir i'r rheiny nad oedd yn gallu mynychu sesiynau wyneb yn wyneb.
- Sesiwn benodol gydag aelodau o Senedd yr Ifanc.

## Sesiynau Ymgynghori

Fel rhan o'r broses ymgynghori cyhoeddus, cynhaliwyd 4 sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb (galw heibio) gan Swyddogion Addysg: 2 sesiwn yng Nghanolfan Hamdden Plas Madog a 2 sesiwn yn The Kettle Club, Plas Madog. Gwahoddwyd rhanddeiliaid, gan gynnwys rhieni ac aelodau o’r gymuned, i ddod i'r sesiynau. Derbyniodd pawb a fynychodd wybodaeth am y cynnig, cawsant gyfle i ofyn cwestiynau a gofynnwyd iddynt roi adborth i’r ymgynghoriad. Roedd sawl ffordd i wneud hyn. Roedd presenoldeb da yn y sesiynau ymgysylltu. Cynigiwyd 2 sesiwn galw heibio rithwir yn ystod yr ymgynghoriad hefyd, ond ni fanteisiodd unrhyw un ar y rhain.

**Amserlen y Sesiynau Galw Heibio**

| Dyddiad | Amser | Math o Sesiwn | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth 1 Ebrill 2025 | 9:30am-11:00am | Sesiwn Galw Heibio | Canolfan Hamdden Plas Madog |
| Dydd Mercher 2 Ebrill 2025 | 9:30am-11:00am | Sesiwn Galw Heibio | The Kettle Club, Plas Madog |
| Dydd Iau 3 Ebrill, 2025 | 10:30am-12:00pm | Sesiwn Galw Heibio | The Kettle Club, Plas Madog |
| Dydd Iau 3 Ebrill, 2025 | 1:00pm-3:00pm | Sesiwn Galw Heibio | Canolfan Hamdden Plas Madog |
| Dydd Iau 1 Mai 2025 | 5:00-5:30pm | Sesiwn Rithwir | Ar-lein |
| Dydd Gwener 2 Mai 2025 | 9:00am-9:30am | Sesiwn Rithwir | Ar-lein |

## Adborth am yr Ymgynghoriad

Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yr ymatebion canlynol:

| Fformat yr Ymateb | Nifer yr Ymatebion a Gafwyd |
|---|---|
| Ymatebion Ar-lein (Arolwg Oedolion) | 29 |
| Ymatebion Ar-lein (Arolwg Plant a Phobl Ifanc) | 16 |
| Senedd yr Ifanc | 6 |
| Llythyrau gan Grwpiau a dderbyniwyd drwy e-bost | 1 Estyn, 1 RhAG |
| Negeseuon e-bost a dderbyniwyd gan unigolion | 11 |
| **Nifer yr Ymatebion a Gafwyd** | **64** |

**Ymatebwyr**
Mae dadansoddiad o'r ymatebwyr i'r **arolwg oedolion ar-lein** wedi'i nodi isod:

| **Pwy Ymatebodd** | **Nifer yr Ymatebwyr** |
|---|---|
| Aelod o staff | 2 |
| Aelod o'r gymuned ehangach | 2 |
| Rhiant/gofalwr/gwarcheidwad | 11 |
| Perthynas i’r disgybl | 0 |
| Aelod o'r gymuned leol | 6 |
| Darpar Riant/gofalwr/gwarcheidwad | 2 |
| Darpar berthynas i’r disgybl | 1 |
| Llywodraethwr | 0 |
| Dim cysylltiad | 3 |
| Arall/sefydliad | 2 |
| Dim ateb | 0 |
| **Cyfanswm** | **29** |

**Ymatebion i'r Arolwg Ar-lein gan Oedolion**
Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu darpariaeth arbenigol newydd o'r enw 'Copa' ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?' roedd **22** allan o 29 o ymatebwyr i'r arolwg oedolion o blaid y cynnig, roedd **2** allan o 29 o ymatebwyr yn erbyn y cynnig, a dywedodd **5** allan o 29 o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod sut roeddent yn teimlo am y cynnig.

**Ymatebion i'r Arolwg Ar-lein gan Blant a Phobl Ifanc**
Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Sut ydych chi'n teimlo am ein syniad i agor Copa?' Roedd **15** allan o 16 o blant a phobl ifanc o blaid y cynnig a dywedodd **1** allan o 16 o blant a phobl ifanc nad oedd yn gwybod sut roedd yn teimlo am y cynnig.

Gofynnwyd hefyd i blant a phobl ifanc roi sylwadau os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- Trwy agor y ddarpariaeth hon byddai'n lleihau'r straen ar gyllidebau. Ond yn bwysicach fyth, fe fydd yn well i'r plant sydd angen mynediad at ddarpariaeth ADY. Rhaid bod teithio i ysgolion y tu allan i Wrecsam ac oddi yno yn peri straen i'r plant. Hefyd, bydd hwn yn cyfrannu at fod yn garbon sero.
- Dylai fod rhywbeth ar gyfer 18-25.
- Dwi ddim yn siŵr beth yw e.
- Hoffwn i fynd i'r ysgol hon.
- Mae angen yr ysgol newydd hon arnom. Rwy'n gweithio ym maes trafnidiaeth ysgol ac rwy'n cludo disgyblion Ysgol Sant Christopher, ac mae llawer o bobl ifanc sydd angen cymorth yn Ysgol Sant Christopher.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu ar gyfer plant Cymraeg eu hiaith a allai ddefnyddio'r ddarpariaeth. Mae clywed yr iaith ac annog ei defnydd yn hanfodol i'r rhai ohonom sy'n ei siarad, ei gwerthfawrogi ac yn teimlo'n fwy cyfforddus yn ei siarad.

## Senedd yr Ifanc

Yn ystod yr ymgynghoriad, fe wnaeth Swyddogion yr Awdurdod Lleol gwrdd â Senedd yr Ifanc i drafod y cynigion. Senedd ieuenctid yw Senedd yr Ifanc, sy'n cynnwys gwirfoddolwyr rhwng 11 a 25 oed sydd â chysylltiad â Wrecsam. Mae Senedd yr Ifanc yn ymgynghori â phobl ifanc eraill rhwng 11 a 25 oed ac yna'n hyrwyddo newid cadarnhaol yn Wrecsam.

| **Dyddiad** | **Math o Sesiwn** | **Lleoliad** | **Nifer yr Ymgyngoreion** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 Ebrill 2025 | Senedd yr Ifanc | Neuadd y Dref | 14 person ifanc |

Yn ystod cyfarfod Senedd yr Ifanc, gofynnwyd i'r bobl ifanc a oeddent wedi gweld copïau o'r ddogfen ymgynghori. Esboniodd swyddogion beth oedd pwrpas yr ymgynghoriad a rhoddwyd cyflwyniad. Anogwyd y bobl ifanc i ofyn cwestiynau a rhannu unrhyw syniadau oedd ganddynt.

**Adborth gan Senedd yr Ifanc – 28 Ebrill 2025**
Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Ydych chi'n deall y cynnig?' Dywedodd **6** o'r bobl ifanc o Senedd yr Ifanc a lenwodd gopi caled o'r arolwg eu bod yn deall y cynnig.

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Sut ydych chi'n teimlo am ein syniad?' dywedodd **6** o'r bobl ifanc o Senedd y Ifanc a lenwodd gopi caled o'r arolwg eu bod yn hoff o'r syniad.

**Sylwadau Ysgrifenedig gan Senedd yr Ifanc**
- *"Mae'n syniad da iawn! Mae unedau ADY yn weddol fach ac nid oes un gan rai ysgolion."*
- *"Rwy'n cytuno bod canran y plant a allai fod ag ADY yn cynyddu. Byddai'n beth da. Cyn belled â'i fod yn hygyrch."*
- *"Rwy hoff iawn o'r syniad ond rwy'n poeni am nifer y disgyblion (18). Rwy'n credu bod hwn yn rhy fach. Allech chi gael y plant ar rota? Neu allech chi gael 10 o blant mewn 3 dosbarth (enghraifft) i sicrhau bod mwy o blant yn cael yr help sydd ei angen arnynt?"*
- *"Byddai o fudd mawr i ddisgyblion sydd ar y sbectrwm."*
- *"Rwy'n credu ei fod yn syniad da."*
- *"Rwy'n credu bod y syniad ar gyfer yr ysgol newydd yn wych. Gan fod darpariaethau ADY presennol yn cyrraedd capasiti, a allech chi ystyried adolygu pob ysgol gynradd i weld a allai unrhyw un o'u hystafelloedd dosbarth gael eu hailbwrpasu fel unedau darparu adnoddau ysgol? Gallai hyn helpu i ateb y galw cynyddol, tra'n cadw ychydig o ystafelloedd dosbarth sbâr ar gael rhag ofn bod cynnydd sydyn yn nifer y disgyblion."*

**Adborth gan RhAG**
Cafodd ymateb i'r ymgynghoriad, a dderbyniwyd gan Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG), ei ystyried yn fanwl gan y Swyddogion. Mae'r Cyngor wedi darparu ymateb ysgrifenedig i'r sylwadau a wnaed. Mae'r cynnig yn cydnabod y diffygion cenedlaethol a lleol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i gynnig y Gymraeg yn y lleoliad newydd gwerthfawr hwn, yn unol ag anghenion dysgwyr. Lle bo modd, byddwn yn ceisio penodi aelodau staff dwyieithog a siaradwyr Cymraeg i swyddi arwain. Bydd arferion cynhwysol ar flaen y gad yn y lleoliad arbenigol hwn. Bydd yn

golygu y gall ein dysgwyr aros yng Nghymru ar gyfer eu haddysg, lle mae’r Gymraeg, cwricwlwm Cymru, a diwylliant a threftadaeth Cymru yn gwbl hygyrch iddynt.

**Themâu’r Ymgynghoriad**
Mae adborth a gafwyd drwy ymatebion i'r arolwg ar-lein, e-byst a sesiynau galw heibio wedi cael eu dadansoddi. Nodwyd y **15** thema ganlynol:

| **Thema** |
|---|
| 1. Mae angen mawr am y ddarpariaeth a bydd o fudd i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol |
| 2. Dylai'r cynnig gynnwys cynnig dwyieithog / addysg Gymraeg |
| 3. Effaith ar y Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru |
| 4. Dylai'r Gymraeg fod yn ddewisol |
| 5. Pryder am bwysau cyllidebol ac effaith ariannol ar ysgolion / darpariaethau adnoddau eraill |
| 6. Pryder am y gofod awyr agored / y safle |
| 7. Effaith ar y gymuned / ystyried anghenion y gymuned |
| 8. Pryderon am draffig/parcio/diogelwch |
| 9. Teithiau byrrach a llai o amser teithio i ddysgwyr |
| 10. Strwythur staffio / diogelwch swyddi |
| 11. Pryder ynghylch nifer y lleoedd i ddisgyblion ar y safle |

| |
|---|
| 12. Cynnig y cwricwlwm |
| 13. Dylid ystyried darpariaeth ôl-16 |
| 14. Cwestiynau ynglŷn ag enw'r ddarpariaeth |
| 15. Dylid creu fersiwn i blant ysgol gynradd 3-11 oed |

## Adborth gan Estyn

**Cyflwyniad:**
Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae gofyn iddo weithredu yn unol â'r Cod, ac nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw ofynion statudol ar Estyn i ymwneud â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn cynnig eu barn. Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi rhoi'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a roddwyd gan y cynigiwr:

**Y Cynnig:**
Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd o'r enw 'Copa' ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gyda ffocws penodol ar ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 sy'n niwroamrywiol ag awtistiaeth.

**Casgliad:**
Ar y cyfan, barn Estyn oedd bod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr awdurdod lleol.

**Disgrifiad a Manteision:**
Mae'r awdurdod lleol wedi nodi rhesymeg gynhwysfawr a chlir dros sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar gyfer disgyblion o fewn awdurdod lleol Wrecsam. Mae'r cynnig yn cydnabod y galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion arbennig. Mae hefyd yn cydnabod y galw cynyddol am ddarpariaeth addysgu arbenigol i ddisgyblion niwroamrywiol, lle mai awtistiaeth yw eu prif faes cymorth. Mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd y ddarpariaeth arbenigol hon yn darparu lleoliadau addysgol i 18 o ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Mae'r awdurdod lleol yn nodi'n glir yr angen am ddarpariaeth addas lle gellir diwallu anghenion amgylcheddol a synhwyraidd disgyblion mewn amgylchedd dysgu cynhwysol sy'n deall awtistiaeth. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae ysgolion

arbennig yn darparu ar gyfer disgyblion hyd at 19 oed. Nid yw'r cynigydd yn glir ynglŷn â beth fydd yn digwydd i ddisgyblion ar ôl cyfnod allweddol 4.

Mae’r awdurdod lleol wedi egluro manteision sefydlu'r ddarpariaeth newydd hon, sy'n golygu y bydd disgyblion niwroamrywiol yn cael eu haddysgu yn nes at y cartref ac y bydd eu hanghenion dysgu a lles yn cael eu diwallu yn y sir. Mae'r amserlen ar gyfer gweithredu yn glir ac yn synhwyrol. Mae'r cynnig yn cynnwys ystyriaeth fanwl o fanteision ac anfanteision posibl y ddarpariaeth arbenigol newydd. Mae'r manteision posibl yn bellgyrhaeddol. Dim ond ychydig o anfanteision posibl sydd ac maent yn cael eu gorbwyso gan y manteision. Fodd bynnag, gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch y safle ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Mae'r mesurau lliniaru i fynd i’r afael â hyn, a'r ychydig iawn o anfanteision posibl eraill, yn ymddangos yn glir ac yn synhwyrol. Mae'r cynnig yn nodi'r angen i greu corff llywodraethu a strwythur staffio newydd. Bydd y strwythur hwn yn ystyried anghenion y disgyblion ac yn llywio’r gymhareb staffio a gweithio amlddisgyblaethol.

Mae'r cynnig yn sôn y bydd rhaglen sefydlu gynhwysfawr yn cael ei chynllunio i staff i sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt. Fodd bynnag, ni roddwyd digon o ystyriaeth i'r strwythur arweinyddiaeth arfaethedig, gan gynnwys penodi Pennaeth, cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol a chadeirydd y llywodraethwyr. Nid yw'r cynigydd yn glir ynglŷn â staff sydd angen unrhyw arbenigedd penodol, megis ym meysydd niwroamrywiaeth, awtistiaeth neu anghenion cymhleth. Mae angen eglurhad ar yr agweddau hyn. Mae'r cynnig wedi ystyried nifer o opsiynau amgen. Mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno achos priodol ar gyfer yr opsiwn a ffefrir ganddynt. Nid yw polisi presennol yr awdurdod lleol ar drafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn newid. Mae'r cynnig yn nodi diffygion cenedlaethol a lleol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod y cynnig yn cefnogi ei amcanion o ran y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac y bydd yn ceisio lleihau a lliniaru unrhyw effaith bosibl. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynnig hwn. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r cynnig hwn.

**Agweddau Addysgol y Cynnig**

Mae'r ymgynghoriad yn ystyried effaith addysgol y cynnig mewn modd addas. Mae'r cynnig hwn yn ceisio adeiladu ar safonau presennol gyda'r bwriad o gryfhau a gwella'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion. Bydd y ddarpariaeth newydd yn ceisio sicrhau profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol ac amgylchedd meithringar o ofal, cymorth ac arweiniad sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion disgyblion â niwroamrywiaeth gymhleth ac awtistiaeth fel eu prif faes cymorth. Ymddengys bod y ddarpariaeth arfaethedig yn anelu at ddiwallu anghenion synhwyraidd a chymdeithasol ei disgyblion gan gynnwys darparu adnoddau ac ystafelloedd arbenigol. Mae'r awdurdod lleol yn nodi ychydig o ysgolion arbennig annibynnol eraill a allai gael eu heffeithio gan y cynnig, ond dim ond yn nodi ‘Rhagwelir y bydd effaith fach iawn ar y darpariaethau hyn.’ Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghoriad yn nodi nac yn esbonio’n ddigonol pa effaith y gellid ei chael ar ddarpariaethau eraill.

## Trin Pawb yn Deg

Yn ogystal â gofyn a oedd pobl yn cefnogi neu ddim yn cefnogi'r cynnig, gofynnwyd cwestiynau ynghylch pa mor deg oedd y cynnig yn eu barn nhw. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran am ‘drin pawb yn deg’ yn yr arolwg.

| Ydych chi'n meddwl y gallai'r strategaeth hon neu'r cynnig hwn greu anfantais neu wneud pethau'n annheg i unrhyw grwpiau o bobl neu unigolion? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 6 |
| Nac ydw | 17 |
| Ddim yn siŵr/Ddim yn gwybod | 4 |
| **Cyfanswm** | **27** |

Dewisodd 11 ymatebwr ateb y cwestiwn ‘Os ydych chi'n meddwl y gallai'r cynnig hwn greu anfantais neu wneud pethau'n annheg i unrhyw grwpiau o bobl neu unigolion, pa grwpiau neu unigolion allai fod dan anfantais yn eich barn chi a pham?’. Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- Mae angen i staff gael llawer mwy o hyfforddiant a phrofiad ar gyfer dysgwyr ADY. Dylai staff fod yn brofiadol ac yn wybodus iawn. Byddai angen darparu ar gyfer y plant yn briodol.
- Dim
- Gallai o bosibl roi plant nad ydynt yn gymwys ar gyfer yr ysgol newydd ond sydd ag ADY dan anfantais os yw cyllido hyn yn cael effaith negyddol ar gyllid sydd eisoes yn cael ei ddarparu i ysgolion.
- Na
- Gallai plant ADY golli allan ar bynciau arbenigol.
- Os credir bod gan blentyn ASA ond nad oes ganddo ddiagnosis na CDP, ni fydd yn bodloni'r meini prawf i fynychu. Os yw’r 18 lle yn llawn, mae'n atal lle i eraill.
- Rwy'n teimlo y byddai'n annheg ar y plant nad ydynt yn cael cefnogaeth – y rhai sy'n methu ag ymdopi yn y brif ffrwd ond sy'n colli allan ar leoedd arbenigol. Nid oes digon o leoedd i'r holl blant sydd angen cefnogaeth.
- Siaradwr di-Gymraeg

- Bydd y cynnig hwn yn defnyddio adeilad a allai gael ei ddefnyddio fel arall er lles y bobl sy'n byw ar yr ystâd ac yn yr ardal gyfagos! Fel arfer, mae'r cyngor siŵr o fod yn cael mwy o arian am ddefnyddio'r adeilad ar gyfer plant o ardaloedd eraill!
- Nodwyd eisoes – y rhai sydd eisiau eu haddysg, a'u cefnogaeth arbenigol, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dewisodd 6 ymatebwr ateb y cwestiwn 'Ydych chi'n meddwl bod unrhyw botensial yn y ffordd yr ydym yn cyflawni'r strategaeth neu'r cynnig dan ystyriaeth i wneud pethau'n decach i'r grwpiau neu'r unigolion rydych chi wedi'u nodi?' Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- Sicrhau bod pynciau'n cael eu dysgu gan arbenigwyr.
- Rhoi mwy o ystyriaeth i'r grŵp canolig – y plant sy'n glyfar yn academaidd ond sy'n methu ag ymdopi'n emosiynol yn y brif ffrwd, hyd yn oed gyda chefnogaeth. Yn aml nid yw'r plant hyn yn cael lle mewn ysgolion arbenigol gan y tybir yn anghywir y byddant yn iawn yn y brif ffrwd oherwydd eu bod yn glyfar. Nid yw hyn yn wir ac mae llawer yn cael eu gadael heb gefnogaeth gan orfodi teuluoedd i'w haddysgu gartref.
- Ydw – bydd cynnig darpariaethau arbenigol yn helpu plant sydd fel arall dan anfantais.
- Cefnogaeth ychwanegol.
- Dylai'r Saesneg ddod cyn y Gymraeg.
- Nodwyd eisoes.

**Y Gymraeg**

Gofynnwyd hefyd i bobl am eu syniadau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno'r cynnig. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran yn yr arolwg oedd yn ymwneud â'r Gymraeg.

Dewisodd 12 ymatebwr ateb y cwestiwn 'Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol y byddai'r penderfyniad polisi dan sylw yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'. Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- Dylai ganiatáu addysgu drwy'r Gymraeg ar lefel briodol i'r myfyrwyr.
- Darpariaeth i ddisgyblion ADY cyfrwng Cymraeg yn eu hiaith dewisol. Cyfleoedd gwaith hefyd i staff sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Dylai'r Gymraeg fod ar gael i bob disgybl, fodd bynnag, ni ddylai fod yn orfodol i ddysgwyr ADY gan eu bod yn gallu cael digon o drafferth yn dysgu yn Saesneg heb sôn am yn Gymraeg.
- Fe wnes i ganfod gyda fy mhlant awtistig, oherwydd bod y Gymraeg yn iaith ddisgrifiadol, ei bod yn haws iddynt ei mynegi.

- Dwi'n meddwl y dylai pob ysgol yng Nghymru fod yn siarad Cymraeg gyda Saesneg fel ail iaith gan mai dyna'r unig ffordd i gadw'r iaith yn fyw.
- O bosibl bydd llai o blant yn mynychu lleoliadau Saesneg y tu allan i'r sir, felly gallant gael mynediad at Gymraeg achlysurol yn yr ysgol, a chyfleoedd diwylliannol a threftadaeth Cymreig.
- Mae diffyg cyfleoedd addysg arbenigol Gymraeg addas ledled gogledd Cymru.
- Ddim yn siŵr
- Cadarnhaol iawn i wella'r defnydd o'r Gymraeg.
- Byddai'n cadw'r Gymraeg i fynd.
- Dim byd o gwmpas fan hyn oherwydd fel arfer mae'r plant y mae'r math hwn o beth yn eu helpu yn dod o rywle arall.
- Dwi ddim yn gweld o'r ddogfennaeth, unrhyw gyfleon yn y ddarpariaeth newydd ar gyfer disgyblion ADY i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dewisodd 6 ymatebwr ateb y cwestiwn ‘Yn eich barn chi, pa effeithiau andwyol y byddai'r penderfyniad polisi dan sylw yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- Dim, oni bai bod diffyg darpariaeth Cymraeg ar gael o ganlyniad i gyflogi staff uniaith Saesneg.
- A dweud y gwir, mae'n wych dysgu Cymraeg os oes gennych chi ddigon o ddiddordeb ond gallai fod yn fwy niweidiol na buddiol mewn ystafell ddosbarth ADY gan fod llawer yn cael trafferth deall Saesneg.
- Mae diffyg cyfleoedd addysg arbenigol Gymraeg addas ledled gogledd Cymru.
- Efallai y bydd angen cymorth ar rieni gyda'r Gymraeg.
- Anhawster deall y Gymraeg i’r rhai nad ydynt yn siarad yr iaith.
- Dwi ddim yn gweld cyfle yn y cynnig hwn sydd yn rhoi mynediad i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg sydd angen darparaieth arbenigol megis niwroamrywiaeth. Dwi ddim yn teimlo bod darpariaeth cyffredinol yn ddigonol. Canlyniad hyn yw bod y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol yng nghyd-destun yr unigolion hyn.

Dewisodd 5 ymatebwr ateb y cwestiwn ‘Yn eich barn chi, sut gallai’r polisi dan sylw gael ei lunio neu ei ddiwygio fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- Dylai bod pob swydd yn cael ei hysbysebu fel bod y gallu i addysgu trwy'r Gymraeg yn ddymunol, ond bod rhai swyddi yn dweud bod y Gymraeg yn orfodol. Dim ond trwy wneud hyn y gellir sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg ar gael ac yn ddigonol.
- Os yw'r plentyn eisiau dysgu Cymraeg, gwych. Os dydyn nhw ddim, yna gellid defnyddio amser yn well na thrwy ddysgu iaith arall
- Ddim yn siŵr
- Lleoliadau dwyieithog
- Ystyriaeth i staffio'r adnodd hwn. e.e. tîm arwain sy'n siarad Cymraeg, tîm o staff dwyieithog fel y gellir bod llawer iawn mwy hyblyg wrth ymateb i anghenion sy'n ymddangos dros y blynyddoedd nesaf. Ystyriaeth i agor dosbarth Cymraeg o fewn yr adnodd.

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn ‘Yn eich barn chi, sut gallai’r polisi dan sylw gael ei lunio neu ei ddiwygio fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu fel y byddai’n cael effaith lai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- Dylai bod pob swydd yn cael ei hysbysebu fel bod y gallu i addysgu trwy'r Gymraeg yn ddymunol, ond bod rhai swyddi yn dweud bod y Gymraeg yn orfodol. Dim ond trwy wneud hyn y gellir sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg ar gael ac yn ddigonol.
- Rhoi’r cyfle ond peidio â gorfodi.
- Ddim yn siŵr
- Gweler uchod.

**Carbon**

Gofynnwyd i bobl a oeddent yn meddwl y byddai'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol hirdymor ar leihau carbon yn ein hamgylchedd. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran yn yr arolwg oedd yn ymwneud â charbon.

| Ydych chi'n meddwl y bydd y strategaeth neu'r cynnig dan sylw yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol hirdymor ar leihau carbon yn ein hamgylchedd? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Effaith gadarnhaol hirdymor. | 3 |

| | |
|---|---|
| Effaith negyddol hirdymor | 1 |
| Effeithiau cadarnhaol a negyddol hirdymor | 1 |
| Dim effaith | 4 |
| Ddim yn gwybod/siŵr | 10 |
| **Cyfanswm** | **19** |

Dewisodd 2 ymatebwr ateb y cwestiwn ‘Ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol hirdymor? Os felly, disgrifiwch y rhain isod, ynghyd ag unrhyw syniadau i'w lleihau’. Derbyniwyd y sylwadau canlynol:

- Llai o ddefnydd o drafnidiaeth felly lleihau carbon monocsid.
- Llai o deithio hyd at 60 munud i leoliadau y tu allan i'r sir bob dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 38 wythnos. Ond dim ond ar gyfer 18 o fyfyrwyr.

## Data Monitro Cydraddoldeb – 'Amdanoch Chi'

Gofynnwyd nifer o gwestiynau monitro cydraddoldeb yn yr arolwg o dan y pennawd ‘Amdanoch Chi’. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran ‘amdanoch chi’ yn yr arolwg. Y nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw:

- Oedran
- Rhywedd
- Ailbennu Rhywedd
- Hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg cred)
- Priodas a Phartneriaeth Sifil

Yn ogystal, mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru roi sylw dyledus i'r angen am leihau'r canlyniad anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

**Oedran** – Dewisodd 24 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich oedran? | Nifer yr Ymatebwyr (pwy atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Dan 11 oed | 0 |
| 11-15 mlynedd | 0 |
| 16-24 oed | 0 |
| 25-34 oed | 1 |
| 35-44 oed | 8 |
| 45-54 oed | 9 |
| 55-64 oed | 3 |
| 65-74 oed | 2 |
| 75 oed a hŷn | 1 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **24** |

**Rhywedd** – Dewisodd 24 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich rhywedd? | Nifer yr Ymatebwyr (pwy atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Gwryw | 3 |
| Benyw | 21 |
| Arall | 0 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **24** |

**Ailbennu Rhywedd** – Dewisodd 24 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydy eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a nodwyd adeg eich geni? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Do | 1 |
| Naddo | 23 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **24** |

**Hunaniaeth Hiliol-Genedlaethol** – Dewisodd 20 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Sut byddech chi’n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Cymro/Cymraes | 8 |
| Sais/Saesnes | 2 |
| Albanwr/Albanes | 0 |
| Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon | 0 |
| Prydeiniwr/Prydeinwraig | 10 |
| Arall | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **20** |

**Anabledd** – Dewisodd 21 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydy eich gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi eu cyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu sy’n debygol o bara, am 12 mis o leiaf? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydyn, wedi’u cyfyngu’n fawr | 2 |
| Ydyn, wedi’u cyfyngu ychydig | 2 |
| Nac ydyn | 16 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **21** |

**Gofalwr** – Dewisodd 21 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi'n gofalu am – neu'n rhoi unrhyw gymorth neu gefnogaeth i – aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd anabledd/salwch corfforol neu feddyliol hirdymor neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 13 |
| Nac ydw | 7 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **21** |

**Iaith** – Dewisodd 21 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich dewis iaith? | Nifer yr Ymatebwyr (pwy atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Saesneg | 18 |
| Cymraeg | 2 |
| Arall | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **21** |

**Hil-Ethnigrwydd** – Dewisodd 21 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn

| Beth yw eich grŵp ethnig? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Brodor o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig) | 19 |
| Gwyddelig | 0 |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 0 |
| Roma | 0 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 2 |
| Asiaidd – Indiaidd | 0 |
| Asiaidd – Pacistanaidd | 0 |
| Asiaidd – Bangladeshaidd | 0 |
| Asiaidd – Tsieineaidd | 0 |
| Asiaidd – unrhyw gefndir Asiaidd arall | 0 |
| Du – Caribïaidd | 0 |
| Du – Affricanaidd | 0 |
| Du – Unrhyw Gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall | 0 |
| Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd | 0 |
| Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd | 0 |

| | |
|---|---|
| Cymysg – Gwyn ac Asiaidd | 0 |
| Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall | 0 |
| Arabaidd | 0 |
| Unrhyw ethnigrwydd arall | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **21** |

**Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg cred)** –Dewisodd 21 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich crefydd neu eich cred? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Dim crefydd | 12 |
| Cristion (pob enwad) | 8 |
| Mwslim | 0 |
| Bwdhydd | 0 |
| Hindŵ | 0 |
| Iddew | 0 |
| Sikh | 0 |
| Anffyddiwr | 0 |
| Arall | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **21** |

**Priodas a Phartneriaeth Sifil** – Dewisodd 21 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi’n briod neu mewn partneriaeth sifil? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 13 |
| Nac ydw | 6 |
| Rwy'n berson ifanc dan 18 oed | 0 |
| Rwy'n wraig weddw/ŵr gweddw | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 2 |
| **Cyfanswm** | **21** |

**Beichiogrwydd a Mamolaeth –** Dewisodd 21 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi’n feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog neu wedi bod ar absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 0 |
| Nac ydw | 21 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **21** |

**Cyfeiriadedd Rhywiol** – Dewisodd 20 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau sut rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Heterorywiol neu syth | 18 |
| Dyn hoyw | 0 |
| Menyw hoyw/lesbiad | 0 |

| | |
|---|---|
| Deurywiol | 1 |
| Arall | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **20** |

**Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol – Budd-daliadau Prawf Modd** – Dewisodd 21 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi neu'ch aelwyd yn derbyn unrhyw fudd-daliadau prawf modd (er enghraifft, Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn, Lwfans Ceisio Gwaith, Credydau Treth, Lwfans Gofalwyr, Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor)? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 7 |
| Nac ydw | 13 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **21** |

**Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol – Budd-daliadau Anabledd** – Dewisodd 21 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi neu unrhyw un sy'n byw yn eich cartref yn derbyn budd-daliadau anabledd (er enghraifft: Lwfans Byw Anabledd, Lwfans Presenoldeb, Taliad Annibyniaeth Bersonol, Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, Lwfans Presenoldeb Cyson, Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel)? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw / ydyn | 10 |
| Nac ydw / nac ydyn | 10 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **21** |

**Ward Etholiadol** – Dewisodd 20 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ward Etholiadol | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Gogledd Acre-fair | 0 |
| Acton a Maes-y-dre | 2 |
| Bangor-is-y-coed | 0 |
| Parc Borras | 0 |
| Bronington a Hanmer | 0 |
| Brymbo | 1 |
| Bryn Cefn | 1 |
| Brynffynnon | 0 |
| Cartrefle | 0 |
| Dwyrain Cefn | 0 |
| Gorllewin Cefn | 0 |
| Dyffryn Ceiriog | 0 |
| Gogledd y Waun | 0 |
| De’r Waun | 0 |
| Coed-poeth | 1 |
| Dyffryn Ceiriog | 1 |
| Erddig | 1 |
| Esclys | 1 |
| Garden Village | 0 |
| Dwyrain/Gorllewin Gresffordd | 0 |
| Grosvenor | 0 |
| Gwenfro | 0 |
| Dwyrain Gwersyllt | 0 |
| Gogledd Gwersyllt | 0 |
| De Gwersyllt | 0 |

| | |
|---|---|
| Gorllewin Gwersyllt | 0 |
| Hermitage | 0 |
| Holt | 1 |
| Acton Fechan | 1 |
| Llangollen Wledig | 0 |
| Llai | 1 |
| Marchwiel | 1 |
| Marford a Hoseley | 0 |
| Mwynglawdd | 0 |
| New Broughton | 0 |
| Offa | 1 |
| Owrtyn a De Maelor | 1 |
| Pant a Johnstown | 0 |
| Pen-y-cae | 0 |
| Pen-y-cae a De Rhiwabon | 0 |
| Ponciau | 0 |
| Queensway | 0 |
| Rhos | 1 |
| Rhosnesni | 0 |
| Yr Orsedd | 1 |
| Rhiwabon | 1 |
| Smithfield | 0 |
| Stansty | 1 |
| Clwydwen | 1 |
| Wynnstay | 0 |
| Dydw i ddim yn byw yn Wrecsam | 1 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm** | **20** |

## Cwestiynau Monitro Ansawdd yr Arolwg

Ar ddiwedd yr arolwg, gofynnwyd tri chwestiwn am brofiadau pobl o gwblhau'r arolwg. Nid oedd pob person wedi dewis ateb cwestiynau monitro ansawdd yr arolwg.

Mewn ymateb i'r cwestiwn ‘Pa mor hawdd oedd yr arolwg hwn i'w gwblhau?’ dewisodd 27 ymatebwr ateb.

| Pa mor hawdd oedd yr arolwg hwn i'w gwblhau? | Nifer yr Ymatebwyr (pwy atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Hawdd iawn | 13 |
| Eithaf hawdd | 12 |
| Eithaf anodd | 2 |
| Anodd iawn | 0 |
| Ddim yn gwybod/Ddim yn siŵr | 0 |
| **Cyfanswm** | **27** |

Mewn ymateb i'r cwestiwn ‘Yn eich barn chi, a wnaethom ofyn y cwestiynau cywir am destun yr arolwg hwn?’ dewisodd 24 ymatebwr ateb.

| Yn eich barn chi, a wnaethom ofyn y cwestiynau cywir am destun yr arolwg hwn? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Do | 7 |
| Naddo | 7 |
| Ddim yn siŵr | 10 |
| **Cyfanswm** | **24** |

Dewisodd 8 ymatebwr ateb y cwestiwn ‘Os gwnaethoch chi ateb ‘Naddo’ neu ‘Ddim yn siŵr’ i’r cwestiwn olaf, a oes unrhyw gwestiynau eraill rydych chi'n meddwl y dylen ni fod wedi’u gofyn?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- Dylai cwestiynau ymwneud â'r effaith addysgol yn hytrach nag amgylcheddol, ond rwy'n deall bod gan gynghorau rwymedigaeth gyfreithiol ynghylch allyriadau carbon ac ati
- Dydw i ddim yn gwybod sut mae hyn yn gweithio ond mae gen i lawer i'w ddweud ar y mater.
- Sut y byddai teithio a gofal iechyd yn cael eu heffeithio.
- Mae’r cwestiynau’n rhy gyffredinol o lawer ac nid ydynt yn ymwneud â manylion y cynnig.
- Gallai fod wedi cynnwys cwestiynau am y Cynnig Addysgol yn COPA. Ydy mae’n ysgol ASA, ond ai ar gyfer disgyblion ag oedi datblygiadol, neu drafferthion academaidd, neu’r ddau? Nid yw'r cynnig addysgol wedi’i ddisgrifio mewn unrhyw fanylder.
- Oes! Beth fyddai'n fuddiol i'r ystâd hon??
- Ddim yn siŵr
- Rhowch gyfle i bobl Wrecsam bleidleisio ar ba iaith sy'n dod yn gyntaf

Mewn ymateb i’r cwestiwn ‘Pan ofynnon ni gwestiwn, oedd hi'n glir beth oedden ni'n ei ofyn?’ dewisodd 26 ymatebwr ateb.

| Pan ofynnon ni gwestiwn, oedd hi'n glir beth oedden ni'n ei ofyn? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Oedd | 24 |
| Nac oedd | 1 |
| Ddim yn siŵr | 1 |
| **Cyfanswm** | **26** |

Dewisodd 3 ymatebwr ateb y cwestiwn ‘Os gwnaethoch chi ateb ‘Naddo’ neu ‘Ddim yn siŵr’ i’r cwestiwn olaf, a allech chi ddarparu mwy o wybodaeth am ba gwestiynau nad oeddent yn glir a pham?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- Y Gymraeg
- Na

- Wel, gadewch i ni wynebu'r ffeithiau, rydych chi eisoes yn gwneud bywyd yn anoddach i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg drwy anfon llythyrau yn y Gymraeg yn gyntaf, a hyd yn oed pan rydyn ni'n eich ffonio chi mae'n rhaid i ni wrando ar ryw ffŵl yn siarad yn y Gymraeg cyn gofyn i ni wedyn a hoffem siarad yn Saesneg – pam nad ydych yn gofyn Cymraeg neu Saesneg yn gyntaf?

## Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

Roedd yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ar gael i'w weld/lawrlwytho o'r dudalen Ymgynghoriad: darpariaeth arbenigol newydd ‘Copa’ ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar wefan y Cyngor. Roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais.

## Cwestiynau Cyffredin

Cafodd cwestiynau cyffredin eu cofnodi yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd adran ‘Cwestiynau Cyffredin’ gydag ymatebion ar gael ar blatfform cyfranogiad y Cyngor, Eich Llais, a chafodd ei lanlwytho i’r dudalen Ymgynghoriad: darpariaeth arbenigol newydd ‘Copa’ ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar wefan y Cyngor.

## Crynodeb Cyffredinol o'r Canfyddiadau

**O blaid y cynnig:**

Roedd **22** o 29 ymateb i'r arolwg oedolion o blaid y cynnig.

Roedd **15** o 16 ymateb i'r arolwg plant a phobl ifanc o blaid y cynnig.

Roedd **6** o 6 ymateb papur gan Senedd yr Ifanc o blaid y cynnig.

Roedd **5** o 11 e-bost gan unigolion o blaid y cynnig.

**Yn erbyn y cynnig:**

Roedd **2** o 29 ymateb i'r arolwg oedolion yn erbyn y cynnig.

Roedd **0** o 16 ymateb i'r arolwg plant a phobl ifanc yn erbyn y cynnig.

Roedd **0** o 6 ymateb papur gan Senedd yr Ifanc yn erbyn y cynnig.

Roedd **0** o 11 e-bost gan unigolion yn erbyn y cynnig.

**Ddim yn siŵr:**

Dywedodd **5** o 29 ymateb i'r arolwg oedolion nad oeddent yn gwybod sut roedden nhw'n teimlo am y cynnig.

Dywedodd **1** o 16 ymateb i'r arolwg plant a phobl ifanc nad oeddent yn gwybod sut roedden nhw'n teimlo am y cynnig.

Dywedodd **0** o 6 ymateb gan y Senedd yr Ifanc nad oeddent yn siŵr a oeddent yn hoff o'r syniad.

Nid oedd **6** o 11 e-bost gan unigolion yn nodi a oeddent o blaid y cynnig ai peidio.

## Casgliad

Ar ôl adolygu'r ddogfennaeth ymgynghori, mae Estyn wedi datgan bod y cynnig yn cynnwys ystyriaeth fanwl o fanteision ac anfanteision posibl y ddarpariaeth arbenigol newydd. Mae Estyn yn cydnabod bod y manteision posibl yn bellgyrhaeddol a bod y manteision hyn yn drech na'r ychydig anfanteision posibl.

Os gwneir penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig presennol a bod y sefyllfa bresennol yn parhau, mae'n debygol na fydd yr Awdurdod Lleol yn gallu ateb y galw cynyddol am leoedd i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Awdurdod Lleol yn credu, er gwaethaf rhai pryderon a godwyd, bod angen mawr am y cynnig i sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ym Mhlas Madog ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod nad yw enw arfaethedig yr ysgol, 'Copa', a'r ystyr y tu ôl iddo, yn hawdd ei ddeall. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd y Cyngor yn gweithio gyda Senedd yr Ifanc, sef senedd ieuenctid Wrecsam, i'n cynorthwyo i ddewis enw newydd i'r ysgol. Mae Senedd yr Ifanc yn cynnwys gwirfoddolwyr rhwng 11 a 25 oed sydd â chysylltiad â Wrecsam.

## Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyfarfod ar **8 Gorffennaf 2025** i drafod yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig i sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ym Mhlas Madog ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd gofyn i'r Bwrdd Gweithredol roi eu cymeradwyaeth i barhau i'r cam Hysbysiad Statudol i sefydlu'r ddarpariaeth arbenigol newydd. Mae hwn yn cynnwys Cyfnod Gwrthwynebu ffurfiol o 28 diwrnod lle mae'n rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig yn ysgrifenedig. Yn dilyn hyn bydd yr Awdurdod Lleol yn dychwelyd i'r Bwrdd Gweithredol i wneud y penderfyniad terfynol.

**Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac i'r rhai a'n helpodd i drefnu a hyrwyddo'r broses o ymgysylltu â'r gymuned a'r ysgol gynradd leol.**